STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

# Darpariaeth ar gyfer Disgyblion yng nghyfnodau Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

## Rheoli Gofynion Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Mae'r Cod yn cydnabod y pedwar prif faes o angen:
• Gwybyddiaeth a dysgu
• Cyfathrebu a rhyngweithio
• Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol
• Anghenion synhwyraidd, corfforol a/neu feddygol, lle mae anghenion dysgu hefyd.

Bydd anghenion y rhan fwyaf o blant a phobl ifainc yn Rhondda Cynon Taf yn cael eu diwallu o fewn lleoliad prif ffrwd heb droi at ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig.
Mae Cod Ymddygiad Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (2002) yn cynghori y dylai ysgolion barhau i gofnodi strategaethau y maen nhw'n eu defnyddio i helpu disgyblion i wneud cynnydd mewn Cynllun Addysg Unigol (CAU). Caiff y term 'CAU' hefyd ei ddefnyddio i ddisgrifio Cynlluniau Chwarae Unigol (Cyfnod Sylfaen) neu Gynlluniau Ymddygiad Unigol.

Dylai Cynllun Addysg Unigol gynnwys:

- 3 neu 4 o dargedau SMART sy'n fanwl gywir (targedau SMART - Sbesiffig, Mesuradwy, Amserol, Realistig, Tebygol)
- strategaethau addysgu - wedi'u cynllunio i helpu'r disgybl i gyrraedd ei dargedau
- adnoddau/darpariaeth ychwanegol
- dyddiad adolygu a chanlyniadau dilynol
- meini prawf llwyddiant
- barn y disgyblion
- cyfraniad rhiant / cynhaliwr (gofalwr)

Mae'r Cod yn pwysleisio y dylai'r CAU gofnodi dim ond y ddarpariaeth sydd yn wahanol neu'n ategol i'r cwricwlwm gwahaniaethol sydd ar gael yn yr ysgol. Dylid trafod y CAU gyda'r disgybl a'i rieni/cynhalwyr a'i adolygu o leiaf

dwywaith y flwyddyn. Diben yr adolygiad yw ystyried cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer y CAU, yn ogystal â thrafod unrhyw wybodaeth newydd neu ychwanegol sy'n ymwneud â chynnydd y disgybl.

Fe ddylai CAU ar gyfer Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar gynnwys yr un wybodaeth sylfaenol a'r CAU sy'n cael eu paratoi ar gyfer Gweithredu gan yr Ysgol, ond byddan nhw'n adlewyrchu ymarfer ac adnoddau priodol y Blynyddoedd Cynnar. Dylai Cynlluniau Chwarae Unigol sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen adlewyrchu dulliau Cyfnod Sylfaen yn briodol. Argymhellir hefyd bod ysgolion yn datblygu proffil un dudalen er mwyn penderfynu beth sy'n bwysig i'r plentyn ac i gynorthwyo cryfderau, anawsterau ac anghenion y plentyn yn y modd gorau.

## Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol

Pan fydd ar athro/athrawes dosbarth neu'r Cydlynydd AAA yn nodi disgybl ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), dylai'r athro/athrawes dosbarth ddarparu ymyriadau sydd yn ategol neu'n wahanol i'r rhai sy'n cael eu darparu fel rhan o gwricwlwm a strategaethau gwahaniaethol arferol yr ysgol.

Gallai'r sail ar gyfer ymyrraeth trwy Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Weithredu gan yr Ysgol fod yn bryder yr athro neu bobl eraill am ddisgybl, wedi'i ategu gan dystiolaeth, ac er gwaethaf cael cyfleoedd dysgu gwahaniaethol:

- Yn gwneud ychydig o gynnydd rhesymol neu ddim o gwbl, hyd yn oed pan fydd dulliau addysgu yn cael eu targedu'n benodol i wella maes anhawster dynodedig y disgybl.

- Yn parhau i weithio ar lefelau sy'n sylweddol is na'r disgwyl ar gyfer plant o oedran tebyg mewn ardaloedd penodol.

- Yn dangos arwyddion o anhawster gyda datblygiad ieithyddol cynnar.

- Yn dangos arwyddion o anhawster wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd neu rifedd sylfaenol sy'n arwain at gyrhaeddiad gwael mewn rhai meysydd cwricwlaidd.

- Yn arddangos anawsterau emosiynol a / neu ymddygiadol parhaus sydd ddim yn gwella gyda'r technegau rheoli ymddygiad arferol yn yr ysgol.

- Mae ganddo fe / ganddi hi broblemau synhwyraidd neu gorfforol, ac mae'n parhau i wneud ychydig o gynnydd neu ddim o gwbl, er gwaethaf darparu offer arbenigol.

- Mae ganddo fe / ganddi hi anawsterau cyfathrebu a/neu ryngweithio, ac mae'n parhau i wneud ychydig o gynnydd mesuradwy neu ddim o gwbl er gwaethaf darparu cwricwlwm gwahaniaethol.

Gall tystiolaeth briodol i gefnogi symud i Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar neu Weithredu gan yr Ysgol gynnwys gwaith cynllunio'r athro/athrawes sy'n dangos gwahaniaethu, cofnodion dosbarth, asesiadau, arsylwadau, gwaith gwahaniaethol y disgybl, asesiadau ysgol, asesiadau safonol, cymariaethau ag arferion y Cwricwlwm Cenedlaethol a chynnydd grŵp cyfoedion

## Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy

Sail ymyrraeth Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy yw, er gwaethaf derbyn rhaglen unigol a/neu gymorth ychwanegol o dan Weithredu gan yr Ysgol a/neu Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar:

- mae'r disgybl yn parhau i wneud ychydig o gynnydd neu ddim cynnydd o gwbl mewn meysydd penodol dros o leiaf dau dymor.

- mae'r disgybl yn parhau i weithio ar lefelau cwricwlwm sy'n sylweddol is na'r disgwyl ar gyfer disgyblion o oedran tebyg

- mae'r disgybl yn parhau i gael anhawster wrth ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol

- mae gan y disgybl anawsterau emosiynol a/neu ymddygiadol sy'n ymyrryd yn sylweddol ac yn rheolaidd ar ddysgu'r disgybl ei hun neu ar y dosbarth/grŵp, er gwaethaf iddo gael rhaglen rheoli ymddygiad unigol

- mae gan y disgybl anghenion synhwyraidd neu gorfforol ac mae angen offer arbenigol ychwanegol a/neu gyngor neu ymweliadau rheolaidd gan staff arbenigol

- mae gan y plentyn anawsterau cyfathrebu neu ryngweithio parhaus sy'n rhwystro datblygiad perthnasoedd cymdeithasol ac yn achosi rhwystrau sylweddol i'r dysgu.

Dydy un ymweliad gan gynrychiolydd gwasanaeth arbenigol ddim o reidrwydd yn sbarduno symudiadau i gamau Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy.

Fel arfer, bydd y camau yn cael eu nodweddu gan gyfranogiad rheolaidd a pharhaus gan wasanaethau arbenigol. Ddylai disgybl ddim symud i gam Gweithredu a Mwy heb ymgynghori â'r gwasanaethau yma. Dylai rhan o'r cynllun ar gyfer diwallu anghenion disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy, Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy dynnwys dilyn cyngor y gwasanaethau arbenigol ac ymgymryd â'r hyfforddiant sy'n cael ei argymell.

Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig (2002)